# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 22 Ionawr 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Canllawiau a Gyflwynwyd gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

**C11 Alison Halford:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am y goblygiadau a ddaw i'r Gogledd yn sgîl y canllawiau newydd a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, ar gyfer ymchwiliadau? (OAQ15073)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Y canllawiau drafft ar gyfer y safon cofnodi troseddau genedlaethol newydd a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yw'r unig ganllawiau newydd o bwys i waith yr heddlu. Bydd goblygiadau'r safon newydd yn debyg ym mhob ardal heddlu: bydd yn gwella cysondeb ystadegau troseddau a gofnodir yn genedlaethol, yn hyrwyddo cymariaethau mwy cadarn rhwng yr heddluoedd ac yn galluogi'r heddlu i ddarparu gwasanaeth gwell fyth i gymunedau, drwy ganolbwyntio ar y rhai y troseddir yn eu herbyn.

### Colli Swyddi yn y Gogledd

**C12 Janet Ryder:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am swyddi a gollwyd yn y Gogledd yn ystod y chwe mis diwethaf? (OAQ15060)

**Prif Weinidog Cymru:** Wrth ystyried y cyhoeddiadau trist diweddar bod swyddi yn cael eu colli mae angen cadw mewn cof bod llai o bobl wedi hawlio budd-daliadau yn ardaloedd awdurdodau lleol y Gogledd y llynedd. Dros y chwe mis diwethaf mae Tîm Cymru wedi sicrhau 12 o brosiectau yn y Gogledd y disgwylir iddynt greu 480 o swyddi a diogelu 329 o swyddi. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid yn Nhîm Cymru, gan gynnwys yr awdurdodau lleol, yn cydlynu eu hymatebion pan gyhoeddir bod gweithfeydd mawr yn cau, i wneud popeth y gallent i helpu'r gweithwyr yr effeithir arnynt i gael gwaith arall.

### Datganiad Laeken

**C13 Phil Williams:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am oblygiadau datganiad Laeken i berthynas Cymru â'r Undeb Ewropeaidd? (OAQ15074)

**Prif Weinidog Cymru:** Amlinellodd ddatganiad Laeken gwmpas y ddadl ar ddyfodol Ewrop, a fydd, efallai, yn effeithio'n sylweddol ar Gymru. Nid oes modd rhagweld yn union sut y bydd y ddadl yn datblygu yn y cyfnod hyd at y gynhadledd rynglywodraethol yn 2004. Byddwn yn cadw llygad barcud arni a sicrhau y caiff ein sylwadau eu clywed yn y mannau iawn ac ar yr adegau iawn, drwy Bwyllgor y Rhanbarthau a Llywodraeth y DU.

## Cau Cartrefi Gofal yn y Sector Annibynnol

**C14 Peter Rogers:** Pa gynlluniau trawsbynciol sydd gan Brif Weinidog Cymru i ddelio â chanlyniadau unrhyw swyddi a gollir yn sgîl cau cartrefi gofal yn y sector annibynnol yng Nghymru? (OAQ15076)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn ymwybodol iawn o'r ddadl sy'n mynd rhagddi ynglyn â'r amrywiaeth o anawsterau cyd-gysylltiedig sy'n wynebu'r sector tai gofal annibynnol. Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cwrdd â chynrychiolwyr y sector yn rheolaidd; mae'r cyfarfod nesaf ar 24 Ionawr. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol a chynrychiolwyr y sector gofal, ac fe fydd yn cynnwys Dysgu ac Addysgu Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru mewn trafodaethau, yn ôl yr angen.

Ar 18 Hydref, gwnaethom gyhoeddi pecyn gwerth £8 miliwn i helpu'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i ymdopi â phwysau tymor-byr y gaeaf hwn, gan gynnwys cymorth i'r awdurdodau lleol gomisiynu lleoedd mewn cartrefi preswyl a nyrsio. Yr ydym eisoes yn ymdrin â rhai o faterion y gweithlu sy'n effeithio ar y sector yn sgîl adroddiad tasglu y prif arolygydd, ac yr ydym hefyd wedi darparu arian at y gwaith hwn.

## Cyflogaeth a Ffyniant yng Nghymoedd De Cymru

**C15 Owen John Thomas:** Yn ei rôl fel cydgysylltydd datblygu polisi ar faterion trawsbynciol, beth y mae Prif Weinidog Cymru yn ei wneud i leihau diweithdra a chodi ffyniant cymoedd de Cymru? (OAQ15071) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Bu cwymp mewn diweithdra y llynedd, yn ôl nifer y rheini sy'n hawlio budd-dâl, yn ardaloedd pob un o awdurdodau lleol cymoedd y De. Yn ogystal, adlewyrchir ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i gau'r bwlch ffyniant yn Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Mae arian Amcan 1 hefyd yn targedu ardaloedd economaidd ddifreintiedig, sef dwy ran o dair o arwynebedd Cymru, a thrwy hynny'n cwmpasu holl gymoedd y De.